



10 cam syml i baratoi at briodas mewn un sesiwn

Dangosodd ymchwil i Brosiect Priodasau Eglwys Loegr (a does dim rheswm dros gredu y bydd safbwyntiau'n wahanol iawn yng Nghymru) fod y rhan fwyaf o gyplau'n ffafrio un sesiwn yn hytrach na sesiwn bob wythnos wrth baratoi at briodas.

Mae'r Parchedig Andrew Body, awdur 'Growing Together and Making the Most of Weddings', wedi llunio'r templed sesiwn unigol hwn ar gyfer y Prosiect Priodasau.

1. Coreograffi

Manylion y gwasanaeth yw'r prif beth sydd ar feddyliau'r rhan fwyaf o gyplau. Maen nhw'n aml yn poeni am bwy sy'n sefyll ble a phwy sy'n gwneud beth a phryd. Defnyddiwyd hwn fel man cychwyn i siarad am ystyr hyn i gyd. Ydyn nhw'n dewis dod i mewn gyda'i gilydd neu'n cychwyn ar wahân? Felly ai dechrau llyfr yw hwn, neu bennod newydd ynddo? Os ydyn nhw'n gadael fraich ym mraich, maen nhw'n dangos bod dau wedi dod yn un.

2. Y Seremoni

Gellir ystyried y Gwasanaeth Priodas fel patrwm defnyddiol ar gyfer paratoi.

- Mae'r Croeso'n sôn am Ymwybyddiaeth o Dduw
- Mae'r Rhagair yn nodi'r Ddysgeidiaeth sylfaenol am briodas Gristnogol
- Mae'r Datganiadau'n canolbwyntio ar fwriad y pâr i briodi
- Mae'r Colect, y Darlleniadau a'r Bregeth yn darparu amrywiaeth o Fyfyrdodau ar briodas
- Mae'r Addunedau, Rhoi'r Modrwyau a'r Proclamasiwn yn cynnig ffordd o edrych ar y penderfyniad i briodi
- Mae'r Fendith a'r Gweddïau'n gyfle i siarad am le Gweddi mewn priodas

3. Y Rhagair

Crynodeb o rywfaint o ddysgeidiaeth yr Eglwys ar briodas - y theori y maen nhw am ei roi ar waith. Mae pob paragraff yn cynnig cyfleoedd i archwilio syniadau mawr:

- Beth mae pawb yma i'w wneud – nid gwyllo'n unig, ond cyfrannu;
- Nid gwaith dychymyg dyn yw priodas, ond cynllun gwreiddiol Duw ar gyfer bywyd. Mae'r holl fanylion cyfreithiol a'r seremonïau'n gregyn llong sydd wedi tyfu ar gwch sy'n uno pobl o bobl hil a diwylliant;
- Er ein bod ni'n meddwl am ddau berson yn unig, mae'r hyn maen nhw'n ei wneud yn effeithio ar gymdeithas gyfan – mae priodasau da'n gwneud bywyd yn well i bawb;
- Dyma ddechrau rhywbeth mawr – mae 'pwrpas' Duw yn ein hatgoffa bod yna rywbeth y gall pob pâr ei wneud yn y byd hwn na all neb arall. Mae ganddyn nhw gyfle unigryw...

4. Y Datganiadau

Pan mae Gwasanaeth Priodas yr Eglwys yng Nghymru'n gofyn i'r briodferch neu'r priodfab a fyddan nhw'n caru, anrhydeddu a gofalu am ei gilydd, beth mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd? Fel unrhyw eiriau 'mawr', mae angen eu hangori mewn bywyd go iawn. Pan maen nhw'n cytuno i fod yn ffyddlon, nid yn unig maen nhw'n anghofio am unrhyw berthynas flaenorol, ond maen nhw hefyd yn gosod arwydd 'Gwerthwyd' ar eu cefnau – dydyn nhw ddim ar y farchnad bellach. Yr adduned gan bawb arall yw cefnogi, nid ymyrryd – mae'n rhaid i'r ddau berson yma ganfod beth mae priodas yn ei olygu yn eu ffordd eu hunain. Beth fydd hyn yn ei olygu iddyn nhw?



5. Y Darlleniadau

Mae dewis y darlleniad(au) yn golygu darganfod beth sy'n siarad yn fwyaf grymus â nhw. Fe fyddan nhw'n dysgu llawer am ymwybyddiaeth ysbrydol ei gilydd wrth iddyn nhw drafod hyn. Mae gofyn pam wnaethon nhw ddewis y darlleniad(au) yn agor pob math o sgysiau. Fe allan nhw gael syniadau am emynau a darlleniadau yn www.yourchurchwedding.org.

6. Yr addunedau

Mae'r addunedau yn rhai 'traed ar y ddaear' go iawn ond eto maen nhw'n hynod ddeniadol iawn i bobl hyd heddiw. Os ydyn nhw'n byw gyda'i gilydd, gall yr addunedau mawr hyn (dim ond yn yr eglwys y gallwch chi eu gwneud, wrth gwrs) fod yn drobwynt rhwng eu gorffennol a'u dyfodol. Pa wahaniaeth y bydd hynny'n ei wneud?

7. Y modrwyau

Mae siâp di-ben-draw modrwy yn ddarlun gwych o adduned cariad diderfyn. Ond beth mae'r 'arwydd' yn ei olygu iddyn nhw? Beth mae'n ei olygu i 'anrhydeddu' rhywun gyda'u 'corff' ac addunedu i rannu eu holl eiddo? Mae'n rhaid i ni ddysgu meddwl fel 'ni' yn hytrach na 'fi' - 'ein' nid 'fy'. Pa mor bell maen nhw wedi teithio ar hyd y llwybr hwnnw?

8. Y Gweithredoedd Symbolaidd

Maen nhw'n cymryd dwylo ei gilydd wrth wneud eu haddunedau - sy'n cynrychioli eu bodolaeth gyfan. Ond maen nhw'n gollwng gafael ar ôl i'r person cyntaf addunedu, yna'n gafael dwylo eto - gan fod rhaid i bob un wneud y dewis drosto'i hun. Yn y Proclamasiwn, efallai y bydd eu dwylo wedi'u lapio yn stola'r gweinidog - dyma darddiad y geiriau 'tying the knot'.

9. Y Proclamasiwn

Dyma gyfle gwych i bwysleisio mai nhw sy'n priodi ei gilydd. Tasg y gweinidog yw cyhoeddi i bawb eu bod wedi gwneud hynny. Mae'r frawddeg 'y peth gan hynny a gysylltodd Duw' yn rhagdybio pa bethau a phobl sy'n rhwystro priodasau heddiw – efallai y byddan nhw wedi gweld hyn ymysg eu ffrindiau eu hunain....

10. Y Gweddïau

Felly, fe ddechreuon ni trwy gydnabod presenoldeb Duw, ac rydym yn gorffen trwy siarad ag Ef. Roedd Edward Patey, Deon Lerpwl ar un adeg yn arfer gofyn i gyplau 'Beth ydych chi am ei ddweud wrth Dduw?' Dydy'r gyfraith ddim yn caniatáu i chi ysgrifennu eich addunedau eich hun, ond gallwch ysgrifennu eich gweddïau eich hun os hoffech chi wneud hynny. Pa weddïau y byddan nhw'n eu dewis a pham?